# CYNLLUN STRATEGOL RHANBARTHOL CEFNOGI POBL CWM TAF 2017-20

**PWYLLGOR CYDWEITHREDOL RHANBARTHOL CWM TAF**
**CYNLLUN COMISIYNU RHANBARTHOL 2016-19**

## Cynnwys:


| | Rhif Tudalen |
|---|---|
| **Rhagair** | **3** |
| **Cyflwyniad** | **4** |
| **Blaenoriaethau strategol cenedlaethol** | **6** |
| **Anghenion, cyflenwad a bylchau gwasanaeth** | **12** |
| **Dadansoddi deilliannau** | **16** |
| **Tystiolaeth ymgynghoriad** | **23** |
| **Blaenoriaethau PCRh Cwm Taf** | **24** |
| **Datblygiadau gwasanaeth PCRh Cwm Taf** | **26** |
| **Effeithiolrwydd** | **27** |
| **Asesiad effaith ansawdd** | **32** |
| **Cynllun gwario 2015/2016** | **32** |
| **Atodiadau:** | **33** |

# Rhagair



Cadeirydd – Y Cynghorydd Linda Matthews

Fel Cadeirydd newydd ei benodi i PCRh Cwm Taf mae wedi bod yn bleser gen i gyfranogi gymaint wrth weithredu'r rhaglen Cefnogi Pobl ledled Cwm Taf. Fel rhanbarth, rydym yn wynebau amseroedd heriol o'n blaenau ond mae'r angerdd a'r ymroddiad sydd gan ein haelodau i gefnogi cyflenwi'r rhaglen yn effeithiol i'w weld yn glir.

**Gweithrediadau**

Rydym wedi gweithio'n galed dros y flwyddyn flaenorol i weithredu ymhellach ddull gweithredu traws awdurdod i gyflenwi'r rhaglen Cefnogi Pobl. Mae hyn wedi cynnwys nifer o gyd-arferion a chyd-weithdrefnau a gefnogir gan waith ein his-grwpiau ac ymroddiad i sicrhau gwerth am arian a sail dystiolaeth dda ar gyfer effaith gwasanaethau Cefnogi Pobl drwy astudiaethau achos a monitro deilliannau.

**Nodau Strategol y Dyfodol**

Rydym yn gweithio'n agos â'n partneriaid darparu i sicrhau ein bod yn diwallu dyletswyddau Deddf Gwasnaethau Cymdeithasol a Llesiant, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfydol a Deddf Tai (Cymru) ac rydym yn broactif wrth ymgysylltu ag asesiad angen y boblogaeth i hwyluso mwy o ddealltwriaeth o anghenion cefnogi tai ledled y rhanbarth.

Wrth symud yn ein blaenau rydym yn ymroddedig i greu cysylltiadau agosach at ein partneriaid o dan ffrydiau gwaith Trechu Thlodi a Digartrefedd. Rydym eisoes yn mynd ar ôl cyfleoedd i weithio gyda'n gilydd i sicrhau dull gweithredu holistaidd i gefnogi'r unigolion hynny sydd mewn angen mwyaf yn ein cymunedau.

Rydym ni oll yn ymwybodol fod yna amseroedd heriol o'n blaenau ond rydym yn benderfynol o wynbeu'r heriau hyn wyneb yn wyneb a dysgu oddi wrth ein profiadau i ddatblygu'r dulliau gweithredu cywir i ddiwallu angen lleol a rhanbarthol.

# Cyflwyniad

Croeso i'r Cynllun Strategol Rhanbarthol cyntaf ar gyfer Cwm Taf, (CSRh), sy'n cymryd lle'r Cynllun Comisiynu Rhanbarthol blaenorol. Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl (CP) yn rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu cefnogaeth sy''n berthnasol i dai i bobl sy'n agored i niwed. Nod y rhaglen yw cefnogi pobl sy'n agored i niwed i wneud y mwyaf o'u hanibynniaeth ynghyd â'i gynnal a'i gadw drwy ddarparu amrywiaeth o wasanaethau cefnogi arloesol sy'n berthnasol i dai.

Dechreuoedd Rhaglen Cefnogi Pobl ar 1 Ebrill 2003, gan ddod â saith o ffrydiau ariannu at ei gilydd sy'n berthnasol i dai ar draws y llywodraeth canolog. Mae'n darparu cefnogaeth hanfodol sy'n berthnasol i dai i helpu pobl sy'n agored i niwed fyw mor annibynnol â phosibl.

Yn 2012 Cafodd Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol Cefnogi Pobl eu ffurfio. Ceir chwech o bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol (PCRh) ledled Cymru ac y mae eu cyfrifoldebau'n amrywio o wneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar wariant cefnogi pobl ym mhob rhanbarth a dod ag unigolion a sefydliadau allweddol at ei gilydd i sicrhau fod cynllunio a chomisiynu gwasanaethau cefnogi pobl yn diwallu anghenion lleol a rhanbarthol.

Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl wedi profi nifer o newidiadau ers cyflwyno'r canllawiau newydd ym Mehefin 2013. Oddi fewn i Gwm Taf, mae'r ddau grŵp cefnogi pobl yn ymroddedig i gofleidio strwythur rhanbarthol y rhaglen mewn modd adeiladol.

Mae rhanbarth Cwm Taf yn cynnwys dau awdurdod lleol: Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Cwm Taf yw'r lleiaf o'r ardaloedd cydweithredol syn cynnwys tua 9.6 y cant o gyfanswm poblogaeth Cymru gyda thua 293,000 o breswylwyr. Cwm Taf yw'r mwyaf difreintiedig o'r ardaloedd yng Nghymru (gan ddefnyddio mesur arwynebedd safonol yn seiliedig ar Fynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru 2000).

Mae pob PCRh yn gyfrifol am ddatblygu Cynllun Strategol Rhanbarthol (CSRh) a fydd yn:

- Adolygu cynnydd yn erbyn Cynllun Comisiynu Rhanbarthol 2016/17 a chyd-weithio/cydweithredu yng Nghwm Taf
- Sefydlu'r Blaenoriaethau Strategol a diweddaru sut mae'r PCRh wedi gwneud cysylltidau gyda blaenoriaethau strategol eraill a phartneriaid ledled y rhanbarth
- Sefyldu cyflenwad a galw rhanbarthol
- Dynodi Blaenoriaethau ar gyfer Datblygiad

Cafodd y CSRh 2017-20 ei ddatblygu mewn partneriaeth â PCRh Cwm Taf, Awdurdodau Lleol, Iechyd, Prawf Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Darparwyr Gwasanaeth Cefnogi Pobl a Defnyddwyr Gwasanaeth. Y disgwyliad yw y bydd y PCRh yn dod â rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd i gynllunio gwasanaethau cefnogi pobl i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion lleol a rhanbarthol i ddarparu

gwasanaethau cefnogi sy’n berthnasol i dai i ddiwallu anghenion sy’n newid ledled y rhanbarth.

Pan fydd y mater wedi dod i ben, bydd y CSRh yn cael ei gylchredeg ledled y rhanbarth i amrywiol randdeilaid, darparwyr cefnogaeth, timau cefnogi pobl a defnyddwyr gwasanaeth.

**Dadansoddiad o’r Ariannu ar gyfer Rhanbarth Cwm Taf**

| **Awdurdod Lleol** | **Gwir Ddyraniad 2016/17** | **Dyraniad Dangosol 2017/18** |
|---|---|---|
| Merthyr Tudful | £2,123,163 | £2,123,163 |
| Rhondda Cynon Taf | £9,056,240 | £9,056,240 |
| **Cwm Taf** | **£11,179,403** | **£11,179,403** |

Caiff yr CSRh ei adolygu’n flynyddol i sicrhau fod y blaenoriaethau dynodedig ar 2017/18 yn cael sylw ac i ddynodi blaenoriaethau parhaus neu newydd ar gyfer datblygu ymhellach flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Mae’r Cynllun Strategol Rhanbarthol yn cefnogi ac yn cydweddu’r Cynlluniau Comisiynu Lleol (CCLl).

**Memorandwm o Ddealltwriaeth**

Mae’r trefniadau Llywodraethu cyfredol yn cynnwys: Grwpiau Cynllunio Cefnogi Pobl lleol sy’n gyfrifol am ddatblygu’r cynlluniau comisiynu lleol a dyrannu’r arian lleol i ddiwallu’r blaenoriaethau lleol sy’n sicrhau bod comisiynwyr, darparwyr gwasanaeth ac yn fwyaf pwysig defnyddwyr gwasanaeth yn cymryd rhan mewn cynllunio, datblygu, comisiynu, dadgomisiynu ac ailfodelu gwasanaethau.

Cytunwyd ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth Pwyllgor Cydwiethredol Rhanbarthol Cefnogi Pobl gan y Gweinidog ym mis Rhagfyr 2015. Cafodd y trefniadau ar gyfer ariannu’r rhaglen eu newid o ganlyniad i adolygiad Aylward, a diben y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yw tanategu llywodraethiant y pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol a gafodd eu sefydlu fel ymateb i argymhellion yr Adolygiadau.

# Blaenoriaethau strategol cenedlaethol

Mae Rhaglen Cefnogi Pobl yn un o'r mentrau sy'n trawstorri fwyaf gan gysylltu ag amrywiaeth eang o flaenoriaethau, strategaethau a chynlluniau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Ar hyn o bryd mae yna nifer o bolisïau gwleidyddol a deddfwriaethol sydd un ai wedi cael eu cyflwyno neu sydd yn y broses o gael eu datblygu neu eu gweithredu ac a gaiff oblygiadau a fydd yn dylanwadu ar ddarpariaeth y dyfodol, cyfeiriad a chyflenwad o wasanaethau sy'n berthnasol i dai ar gyfer pobl sy'n agored i niwed.

Isod, amlygir y dogfennau, cynlluniau a strategaethau sy'n llywio cyfeiriad strategol y Cynllun Comisiynu Rhanbarthol hwn ac sy'n cefnogi nodau rhaglen cefnogi pobl yn genedlaethol, gyda chrynodeb o sut mae'r PCRh yn creu dolenni â'r cynlluniau a'r strategaethau hyn:

**Deddf Diwygio Lles 2012**

Mae'r Ddeddf Diwygio Lles yn cyflwyno amrywiaeth eang o ddiwygiadau. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno Credyd Cynhwysol i gymryd lle'r rhan fwyaf o'r budd-daliadau presennol a chyfyngu ar gyfanswm y budd-daliadau y gall person eu hawlio. Y mae hefyd yn cyflwyno Maen Prawf Maint Budd-dal Tai newydd ar gyfer Pobl sy'n Rhentu yn y Sector Cymdeithasol ar gyfer hawlwyr o oed gwaith, neu 'dreth ystafell wely', mae'r maen prawf hwn yn cyflwyno gostyngiad yn swm y budd-dal tai a gaiff ei dalu i gartrefi yr ystyrir eu bod wedi eu tan-feddiannu gyda gostyngiadau o 14% i gartrefi sy'n tan-feddiannu gan un ystafell wely a 25% i gartrefi sy'n tan-feddiannu gan ddwy ystafell wely. Bydd y diwygiadau lles yn cael effaith ar y ffordd y bydd tenantiaid yn derbyn budd-dal, mewn nifer o achosion, symud yr opsiwn o gael budd-daliadau wedi eu talu'n uniongyrchol i landlordiaid ac estyn cyfradd ystafell sengl i gartrefi RSL o 2018 ac i lety gwarchod a thai â chymorth.

Prif elfennau'r Ddeddf yw:

- Cyflwyno Credyd Cynhwysol (CC) ynghyd â chap budd-dal i ddarparu budd-dal sengl sy'n cynnwys budd-dal tai.
- Diwygiadau i Lwfans Byw i'r Anabl (LBA), drwy gyflwyno'r Taliad Annibynnol Personol
- Adnewyddu Grantiau Gofal cymunedol a Benthyciadau creisis gyda chymorth Lles lleol
- Diwygio Lwfansau Cyflogaeth a Chymorth
- Darpariaeth i gael gwared ar fudd-dal y dreth gyngor, gan agor y ffordd ar gyfer cymorth lleol i'r dreth gyngor a gyflwynwyd yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol

Bydd cyflwyno diwygiad Lles yn enwedig CC yn cael effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n ymddangos ar gyfer gwasanaethau cefnogi pobl, sydd â'r angen am gymorth i reoli problemau cyllid a dyled. Mae newidiadau i Lwfans Tai Lleol ar gyfer y sector rhentu cymdeithasol hefyd yn debygol o gael effaith fawr ar y

ddarpariaeth o Wasanaethau Cefnogi Pobl. Er bod y newid hwn wedi ei oedi, mae'n parhau'n aneglur sut y byddai unrhyw gyllid drosiannol yn cael ei weinyddu.

Mae PCRh Cwm Taf wedi derbyn diweddariadau rheolaidd am y newidiadau i'r systemau Budd-dal Lles. Mae gwybodaeth o'r adrannau perthnasol hefyd wedi eu cyflwyno i'r grŵp. Mae'r PCRh hefyd yn ceisio cael gwybodaeth bellach am effaith Agenda Diwygio Lles. Bydd y PCRh yn monitro'n agos ac yn adolygu patrymau gwario yn y dyfodol i gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau i Ddiwygio Lles, Budd-daliadau Tai a Chredyd Cynhwysol.

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)**

Derbyniodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gydsyniad Brenhinol a daeth yn weithredol yn Ebrill 2016. Y mae bellach yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, gofalwyr sydd angen cymorth ac ar gyfer trawsffurfio gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Mae Papur Gwyn Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith ar gyfer Gweithredu yn amlygu nifer o heirau y mae gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau demograffig, cynnydd o ran disgwyliadau'r rheini sy'n cael mynediad at ofal a chymorth yn ogystal â pharhau â gwirioneddau economaidd caled.

Nod y Ddeddf yw mynd i'r afael â'r materion hyn ac wrth wneud hynny bydd yn rhoi mwy o ryddid i bobl benderfynu ar ba wasanaethau sydd eu hangen arnynt wrth gynnig gwasanaethau cyson, o safon uchel ledled y sir.

Amlinellir 6 o flaenoriaethau strategol yn y Ddeddf:

- Cynnal a gwella llesiant pobl mewn angen.
- Llais cryfach a gwir reolaeth i ddinasyddion.
- Cyfeiriad cryf ac atebolrwydd lleol.
- Diogelu a gwarchod.
- Rheoleiddio ac archwilio.
- Gwasanaethau (mabwysiadu a thrawsnewid)

Mae'r Ddeddf yn cydnabod y cynnydd yn y nifer o bobl sy'n cael mynediad at wasanaethau cymdeithasol. Er mwyn helpu i ddiwallu a lleihau'r gofyn y mae'n amlinellu'r angen am gynnydd cynhwysfawr i ymyrraeth gynnar a gwasanaethau cefnogi dwys. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal a gwella llesiant pobl mewn angen mewn meysydd fel addysg, hyfforddiant, ymateb, llesiant cymdeithasol ac economaidd a'u hiechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol. Bydd gwasanaethau cefnogi pobl yn chwarae rôl hanfodol o ran darparu cefnogaeth i bobl sy'n agored i niwed er mwyn diwallu'r agenda strategol hon.

Mae'r PCRh wedi estyn ei aelodaeth i gynnwys un aelod cyfetholedig sy'n cymryd rhan gweithredol wrth gydlyniad a gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae'r Ddeddf hon bellach yn eitem safonol ar yr agenda mewn cyfarfodydd PCRh ac mae cyflwyniadau wedi eu rhoi a diweddariadau rheolaidd

wedi eu cyflwyno yn y cyfarfodydd. Cafodd y cynllun gweithredu ei gylchredeg i'r PCRh sydd hefyd yn cysylltu Gwasanaethau Cefnogi Pobl at y disgwyliadau newidiol a osodir allan o dan y ddeddf honno i sicrhau alinio rhaglenni yn strategol er budd defnyddwyr gwasanaethau. Cafodd yr holl ddarparwyr rhanbathol eu gwahodd i gyfranogi ym mhroses asesu anghenion y boblogaeth a chaiff ymgymnghoriad ac ymgysylltiad parhaus â darparwyd ei annog.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yng Nghymru. Bydd yn peri bod y cyrff cyhoeddus, a restrir yn y Ddeddf, yn meddwl mwy am yr hir dymor, gweithio'n well â phobl a chymunedau a'i gilydd, edrych ar atal problemau a chymryd ymagwedd fwy gydlynol. Bydd hyn yn ein helpu ni i greu Cymru yr ydym am fyw ynddi, yn awr ac i'r dyfodol. I wneud yn siŵr ein bod yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn gosod saith o nodau llesiant.

**Cymru Ffyniannus** - Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, garbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas

**Cymru Gydnerth** - Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

**Cymru Iachach** - Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

**Cymru sy'n fwy cyfartal** - Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

**Cymru o gymunedau cydlynnus** – Cymunedau atyniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da.

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu -** Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang -** Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang

Daeth Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol i rym ar 19 Ebrill 2015. Fel rhan o'i weithredu mae asesiad Llesiant yn cael ei gyflawni. Mae PCRh Cwm Taf wedi cefnogi

cyfranogiad yn y broses hon a chafodd gwahoddiadau am ymgynghori ac ymgysylltiad eu cylchredeg i'r holl ddarparwyr rhanbarthol. Bydd y Cynllun Llesiant a fydd yn cael ei gynhyrchu o ganlyniad i'r asesiad yn cymryd lle'r Cynlluniau Integredig Sengl.

**Deddf Tai (Cymru)**

Derbyniodd Bil Tai Cymru Gydsyniad Brenhinol ar 17 Medi 2014 gan greu hanes ac yn ffufiol ddyfod yn Ddeddf Tai (Cymru). Mae'r Ddeddf Tai yn canolbwyntio ar dri blaenoriaeth:

- Cynyddu'r cyflenwad o dai a gwella'r sector rhentu preifat
- Atal digartrefedd a gwella help i'r rheini sy'n dyfod yn ddigartref
- Diweddu digartrefedd teulu erbyn 2019

Mae'r Ddeddf yn cynflwyno gwelliannau ar draws y sector tai i sicrhau fod pobl yn cael mynediad at gartref teilwng, fforddiadwy a gwell gwasanaethau'n berthnasol i dai.

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno ymagwedd at atebion i broblemau tai sy'n estyn y diffiniad o fygythiad o ddigartrefedd o 28 diwrnod i 56 diwrnod. Y mae'n gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i gymryd 'pob cam rhesymol i gyflawni ateb priodol i broblem tai i bawb sy'n ddigartref neu sy'n cael ei fygwth â digartrefedd. Ceir dyletswydd ychwanegol i ddarparu llety dros dro i deuluoedd tra bo ateb i broblem tai yn cael ei geisio, os nad oes gan y person le diogel i aros ynddo. Bydd hyn yn estyn dyletswydd llety dros dro presennol y tu hwnt i grwpiau anghenion blaenoriaeth.

Bydd y ddyletswydd i ddarparu llety dros dro i deuluoedd (tra bo ateb i broblem tai yn cael ei geisio) yn arwain at gynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau a ariennir gan gefnogi pobl. Mae timau tai lleol yn gweithio'n broactif gyda'r timau cefnogi pobl i ddiwallu'r dyletswyddau newydd hyn. Mae gan y ddau Awdurdod Lleol gynlluniau gweithredu ar gyfer cyflwyno'r Ddeddf Tai.

**Deddf Trais yn erbyn Menywod, Trais Rhyw a Cham-drin Domestig (Deddf Trais)**

Mae'r Ddeddf yn anelu at wella ymatebion y sector cyhoeddus yng Nghymru tuag at drais sy'n seiliedig ar ryw y person, cam-drin domestig a thrais rhyw. Y mae'n darparu ffocws strategol ac yn sicrhau ystyriaeth gyson o fecanweithiau ataliol, proactif a chefnogol wrth gyflenwi gwasanaethau. Bydd y Ddeddf hefyd yn arwain o ran penodi Ymgynghorydd Gweinidogaethol i weithio â Llywodraeth Cymru i drechu trais sy'n seiliedig ar ryw y person, trais rhyw a cham-drin domestig; y swydd gyntaf o'i bath yn y DU.

Cafodd Grŵp Gweithredol Cwm Taf ei sefydlu gyda chynrhychiolaeth oddi wrth Gomisiynydd Diogelwch Cymunedol yr Heddlu a Throsedd, Tai a Chefnogi Pobl i ddynodi ffyrdd o gydweithio a chomisiynu ar y cyd o bosibl. Cafodd darparwyr cam-drin domestig ledled y rhanbarth eu gwahodd i fwydo mewn i'r bennod asesiad

angen poblogaeth yn y Ddeddf Trais, a'u gwahodd i fynychu ymgynghoriad pellach ac ymgysylltiad pellach am y broses hon.

**Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl**

Strategaeth 10 mlynedd ar gyfer gwella bywydau sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl, eu gofalwyr a'u teuluoedd.

Wrth galon y Strategaeth mae Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, sy'n gosod dyletswyddau cyfreithiol ar Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol i wella cefnogaeth i bobl â statws salwch meddwl.

Y prif themâu ar gyfer Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yw:

- Hyrwyddo llesiant meddwl a, ble y bo'n bosibl, atal problemau iechyd meddwl rhag datblygu.
- Sefydlu partneriaeth newydd gyda'r cyhoedd, yn canolbwyntio ar:
    - Gwella gwybodaeth am iechyd meddwl
    - Cynyddu cyfranogiad defnyddiwr gwasanaeth a gofalwr o ran penderfyniadau am ofal
    - Newid agweddau at iechyd meddwl drwy drechu sgigma a gwahaniaethu
    - Cyflenwi rhwydwaith gofal cwbl integredig. Caiff hyn ei seilio ar adfer a galluogi defnyddwyr gwasanaeth er mwyn byw bywyd mor gyflawn ac annibynnol ag sy'n bosibl.
    - Mynd i'r afael ag amrywiaeth o ffactorau ym mywydau pobl a all effeithio ar iechyd meddwl a llesiant drwy Gynllunio Gofal a Thriniaeth a chydweithio ar draws y sectorau,
    - Dynodi sut y byddwn yn gweithredu'r Strategaeth.

Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar tua 6 deilliant lefel uchel ac yn cael ei chefnogi gan Gynllun Cyflawni. Mae hyn yn amlinellu'r gweithredu fydd Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner yn ymgymryd â nhw i wneud gweledigaeth y Strategaeth yn real.

Bydd Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl newydd yn goruchwylio cyflawni'r Strategaeth.

Wrth i'r Rhaglen Cefnogi Pobl gyfrannu at wella iechyd a llesiant pobl yng Nghwm Taf, cafodd Law yn Llaw at Iechyd Meddwl ei gydnabod fel blaenoriaeth strategol a fydd yn cynorthwyo i lwyio cyfeiriad strategol y Cynllun Comisiynu Rhanbarthol. Mae Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn gofyn bod yr holl adrannau yn gweithio ynghyd i wella iechyd meddwl pawb yng Nghymru a fydd yn dylanwadu ar weithio mewn partneriaeth ac ar y cyd.

Cynrychiolydd Iechyd PCRh yw cyswllt PCRh at y strategaeth hon ac mae diweddariadau rheolaidd oddi wrth grŵp Law yn Llaw at Iechyd Meddwl Cwm Taf yn cael eu darparu.

Ceir hefyd nifer o strategaethau a chynlluniau cenedlaethol eraill sydd yn debygol o gael effaith ar y rhaglen cefnogi pobl gan gynnwys:

- Cartrefi Gwell i bobl Cymru, Strategaeth Dai Genedlaethol Cymru, gwella Bywydau a chymunedau
- Y Strategaeth Ddigartrefedd
- Mesur Iechyd meddwl (Cymru)
- Cynllun Digartrefedd Ddeng Mlynedd i Gymru 2009-2019.

Bydd PCRh Cwm Taf yn ystyried yr holl themâu sy'n trawstorri, polisïau cenedlaethol, strategaethau a chynlluniau wrth gynllunio ar gyfer gwasanaethau comisiynu i sicrhau fod y gwasanaethau cefnogi perthnasol priodol ac effeithiol yn cael eu darparu i ddiwallu anghenion dynodedig ein pobl sy'n agored i niwed ledled y rhanbarth.

# Anghenion, cyflenwad a bylchau gwasanaeth

**Mapio anghenion Data Cwm Taf**

Mae'r tabl isod yn cynnwys data anghenion rhanbarthol a gafodd ei goladu ar gyfer 2015/16 i gynorthwyo'r PCRh â blaenoriaethau penodol ar gyfer 2017/18. Mae'r tabl hefyd yn amlygu'r newid parhaus o ran y galw am wasanaethau cyfredol ar gyfer cleientiaid grŵp penodol ar draws y rhanbarth a'r amrywiaethau o ran galw dros y 2 flynedd ddiwethaf.

**Crynodeb o Asesiad Angen Cwn Taf 2015 – 2016**

**Tabl 1: Anghenion Arweiniol yn ôl cleient grŵp sy'n ymddangos yn 2015-16 yn nhrefn blaenoriaeth**

| Angen arweiniol | Cyfanswm Merthyr Tudful | Cyfanswm RhCT | Prif Gyfanswm |
|---|---|---|---|
| Digartref / pobl sengl ag anghenion cefnogi | 239 | 299 | 538 |
| Iechyd meddwl | 92 | 301 | 393 |
| Pobl ifanc | 49 | 189 | 238 |
| Cam-drin domestig | 94 | 76 | 170 |
| Pobl hŷn | 19 | 110 | 129 |
| Camddefnyddio sylweddau (Cyffuriau) | 10 | 73 | 83 |
| Anabledd Corfforol | 5 | 52 | 57 |
| Cyn-droseddwyr | 12 | 37 | 49 |
| Camddefnyddio sylweddau (Alcohol) | 4 | 45 | 49 |
| Anableddau dysgu | 16 | 28 | 44 |
| Rhiant Sengl sy'n agored i niwed | 12 | 40 | 52 |
| Pobl ifanc sy'n gadael gofal | 10 | 21 | 31 |
| Teulu sy'n agored i niwed | 6 | 24 | 30 |
| Anaf i'r ymennydd | 2 | 24 | 26 |
| Salwch cronig | 2 | 13 | 15 |
| Arall | 1 | 9 | 10 |
| Ddim yn hysbys | 6 | 0 | 6 |
| Nam Synhwyraidd ar y golwg | 1 | 5 | 6 |
| Anhwylder Datblygiadol | 3 | 0 | 3 |
| Diagnosos ddeuol | 0 | 2 | 2 |
| Cyn bersonél y lluoedd arfog | 0 | 2 | 2 |
| Prif Gyfanswm | 583 | 1340 | 1923 |

**Tabl 2: Prif Angen yn ôl y grŵp cleient sy'n ymddangos yn 2014-15**

| Grwp cleient | MT 14/15 | RCT 14/15 | Cyfanswm Cwm Taf 2014/2015 |
|---|---|---|---|
| Menywod sy'n dioddef Cam-drin domestig | 83 | 64 | 147 |
| Dynion sy'n dioddef Cam-drin domestig | 0 | 6 | 6 |
| Pobl ag Anableddau dysgu | 18 | 31 | 49 |
| Pobl â phroblemau iechyd meddwl | 58 | 236 | 294 |
| Pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau | 4 | 70 | 74 |
| Pobl â phroblemau alcohol | 6 | 59 | 65 |
| Pobl â hanes o droseddu | 25 | 91 | 116 |
| Pobl â statws ffoadur | 0 | 0 | 0 |
| Pobl ag anabledd corfforol neu synhwyraidd | 6 | 30 | 36 |
| Pobl â Anhwylderau datblygiadol (ADHD, Autism) | 0 | 3 | 3 |
| Pobl â Salwch cronig (yn cynnwys HIV, AIDS) | 3 | 5 | 8 |
| Pobl ifanc sydd yn gadael gofal | 2 | 10 | 12 |
| Pobl ifanc ag anghenion cefnogi (16 i 24) | 48 | 38 | 86 |
| Teuluoedd rhiant sengl ag anghenion cefnogi | 14 | 39 | 53 |
| Teuluoedd ag anghenion cefnogi | 4 | 11 | 15 |
| Pobl sengl ag anghenion cefnogi (25 i 54) | 188 | 105 | 293 |
| Pobl dros 55 oed ag anghenion cefngoi (ac eithrio larymau cymunedol) | 25 | 47 | 72 |

**Tabl 3: Amrywiant dros 2 flynedd ledled Cwm Taf**

| Prif Angen | MT 2014-15 | MT 2015-16 | Amrywiant | RhCT 2014-15 | RhCT 2015-16 | Amrywiant | Amrywiant Cwm Taf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anaf i'r ymennydd | 0 | 2 | 2 | 0 | 24 | 24 | 26 |
| Salwch cronig | 3 | 2 | -1 | 5 | 13 | 8 | 7 |
| Anhwylder Datblygiadol | 0 | 3 | 3 | 3 | 0 | -3 | 0 |
| Cam-drin domestig | 83 | 94 | 11 | 70 | 76 | 6 | 17 |
| Diagnosos ddeuol | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 | 2 |
| Cyn bersonél y lluoedd arfog | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 | 2 |
| Cyn-droseddwyr | 25 | 12 | -13 | 91 | 37 | -54 | -67 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Anableddau dysgu** | 18 | 16 | -2 | 31 | 28 | -3 | -5 |
| **Iechyd meddwl** | 58 | 92 | 34 | 236 | 301 | 65 | 99 |
| **Pobl hŷn** | 25 | 19 | -6 | 47 | 110 | 63 | 57 |
| **Anabledd Corfforol** | 6 | 5 | -1 | 30 | 52 | 22 | 21 |
| **Nam synhwyriadd ar y golwg** | | 1 | 1 | 0 | 5 | 5 | 6 |
| **Rhieni Sengl** | 14 | 12 | -2 | 39 | 40 | 1 | -1 |
| **Pobl Sengl ag ag anghenion cefnogi heb eu cynnwys unrhyw le arall** | 188 | 239 | 51 | 105 | 299 | 194 | 245 |
| **Camddefnyddio sylweddau (Alcohol)** | 6 | 4 | -2 | 59 | 45 | -14 | -16 |
| **Camddefnyddio sylweddau (Cyffuriau)** | 4 | 10 | 6 | 70 | 73 | 3 | 9 |
| **Teulu sy'n agored i niwed** | 4 | 6 | 2 | 11 | 24 | 13 | 15 |
| **Pobl ifanc sy'n gadael gofal** | 2 | 10 | 8 | 10 | 21 | 11 | 19 |
| **Pobl ifanc** | 48 | 49 | 1 | 38 | 189 | 151 | 152 |
| **Prif Gyfanswm** | 484 | 576 | 92 | 845 | 1261 | 416 | 588 |

Yn ystod 2015/16 derbyniodd timau Cefnogi Pobl 1797 o achosion cyfeirio, 914 ar gyfer menywod ac 871 ar gyfer dynion drwy'r system cyfeirio canolog.

- Mae'r data hwn yn awgrymu fod galw am wasanaethau yn parhau gan bob grŵp cleient sydd ar hyn o bryd yn cael eu cefnogi gan y rhaglen grant cefnogi pobl.

- Yn rhanbarthol, mae rhai grwpiau cleient yn dangos gostyngiad yn y niferoedd a gyflwynir a rhai grwpiau cleient yn dangos cynnydd yn y niferoedd sy'n ymddangos.

- Mae yna ostyngiad sylweddol yn y 2 grŵp cleient ledled y rhanbarth - cyn-droseddwyr a camddefnyddio sylweddau (alcohol). Roedd yna hefyd gynnydd sylweddol o ran achosion cyfeirio ar gyfer Iechyd Meddwl a Phobl Ifanc.

- 

Pan fo cynnydd mewn Pobl Sengl ag anghenion cefnogi, caiff hyn ei briodoli i'r categori blaenorol o ddigartrefedd yn cael ei gynnwys yn y grŵp hwn. Pan fo cynnydd o ran pobl hŷn, mae hyn o ganlyniad i ailffurfweddu'r holl ddarpariaeth llety gwarchod i gefnogaeth gyfnewidiol.

Mae'r data a gaiff ei goladu'n awgrymu fod niferoedd yn cynyddu ac yn bendodol fod niferoedd uchel yn ymddangos ledled y rhanbarth ar gyfer y grŵp cleientiaid canlynol:

- **Digartrefedd / pobl sengl ag anghenion cefnogi**
- **Iechyd meddwl**
- **Pobl ifanc**
- **Cam-drin domestig**

Tra bo anghenion y grwpiau hyn wedi eu cynnwys a'u harddangos drwy'r broses mapio anghenion a chyfeirio, maen nhw'n darparu dangosydd da o'r anghenion cefnogi sy'n berthnasol i dai ar gyfer grwpiau penodol sydd yn draddodiadol wedi dibynnu ar ateb sy'n ffocysu ar dai i ymateb i'w hanghenion tanategol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod fod y categorïau diagnostig yn seiliedig ar hunan-adroddiad (a allai adlewyrchu embaras neu ragfarn yn gysylltiedig ag anghenion penodol) a allai ogwyddo'r dadansoddiad.

**Cyflenwad**
Caiff ymarfer mapio cyflenwad ei gwblhau bob blwyddyn i fapio'r llety a'r gefnogaeth a ddarperir gan Raglen Cefnogi Pobl sy'n monitro lefelau mewn gwagle.

**Galw**
Caiff data amrywiol ei goladu i ddynodi'r galw am wasanaethau a'r newid parhaus ynghyd â'r angen na chaiff ei ddiwallu a'r cyfraddau trosiant a'r rhestrau aros cyfredol.

## Dadansoddi deilliannau

Cafodd Fframwaith Deilliannau Cefnogi Pobl ei greu i arddangos effeithiolrwydd y Rhaglen Cefnogi Pobl a chasglu gwybodaeth i amlygu'r buddion o dderbyn cefnogaeth sy'n berthnasol i dai.

Mae Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a darparwyyr cymorth sy'n berthnasol i dai wedi bod yn gweithio mewn partneriaieth i ddatlbygu fframwaith deilliant ers 2008, mae casglu deilliannau data wedi bod yn orfodol ar gyfer gwasanaethau ariannu Cefnogi Pobl ers 2012.

Diben y fframwaith yw:

- Mabwysiadu system i gasglu gwybodaeth ddeilliant ystyrlon.
- Defnyddio'r wybodaeth i fesur, cynnal a gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarparwyd.
- Cydnabod effeithiolrwydd y Rhaglen Cefnogi Pobl.

Cafodd dadansoddi deilliannau ei gyflwyno i'r PCRh yn ystod Diwrnod Cynllunio Hydref 2016. Cafodd y wybodaeth ei defnyddio wrth ffurfio blaenoriaethau rhanbarthol i'w chynnwys oddi fewn i'r CSRh.

Mae Tabl 4.0 a 5.0 yn darlunio dadansoddiad deilliannau cyfnod 1 2016-17 ym Merthyr Tudul. Mae Tabl 6.0 a 7.0 yn darlunio dadansoddiad deilliannau cyfnod 1 oddi fewn i RhCT.

**Tabl 4.0 Dadansoddi deilliannau Merthyr Tudful**

| Categori Angen | Prif Angen | Angen eilaidd | Trydydd Angen | Nifer mewn tai sefyldog â Prif Angen | Nifer sy'n cael cymorth fel y bo'r angen â Phrif Angen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Larwm (yn cynnwys mewn llety** | 77 | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **gwarchod/gofal ychwanegol)** | | | | | |
| **Teuluoedd ag anghenion cefnogi** | 3 | 5 | 1 | 0 | 3 |
| **Generig/Cefnogaeth gyfnewidiol/Peripatetig (gwasanaethau cefnogi tenantiaeth sy'n cynnwys amrywiaeth o anghenion defnyddiwr)** | 6 | 19 | 2 | 0 | 6 |
| **Dynion sy'n dioddef Cam-drin domestig** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Pobl dros 55 oed ag anghenion cefngoi (Rhaid i'r categori hwn fod heb Wasanaethau Larwm)** | 130 | 11 | 9 | 82 | 48 |
| **Pobl â Salwch cronig (yn cynnwys HIV,Aids)** | 4 | 41 | 5 | 3 | 1 |
| **Pobl â Hanes o droseddu** | 22 | 11 | 7 | 4 | 18 |
| **Pobl ag Anhwylderau datblygiadol (h.y. Awtistiaeth)** | 0 | 2 | 2 | 0 | 0 |
| **Pobl ag Anableddau dysgu** | 30 | 16 | 3 | 27 | 3 |
| **Pobl â phroblemau iechyd meddwl** | 68 | 67 | 31 | 20 | 48 |
| **Pobl â Ag anableddau corfforol a/neu synhwyraidd** | 8 | 63 | 32 | 7 | 1 |
| **Pobl â statws ffoadur** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau (Alcohol)** | 6 | 17 | 10 | 0 | 6 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau (Cyffuriau)** | 5 | 22 | 7 | 1 | 4 |
| **Teuluoedd rhiant sengl ag anghenion cefnogi** | 8 | 11 | 3 | 0 | 8 |
| **Pobl sengl ag anghenion cefnogi heb eu rhestru uchod (25 i 54)** | 82 | 1 | 0 | 24 | 58 |
| **Menywod sy'n dioddef Cam-drin domestig** | 34 | 8 | 2 | 17 | 17 |
| **Pobl ifanc sydd yn gadael gofal** | 1 | 4 | 0 | 1 | 0 |
| **Pobl ifanc ag anghenion cefnogi (16 i 24)** | 32 | 12 | 6 | 29 | 3 |
| **CYFANSWM** | 516 | 310 | 120 | 215 | 224 |

**Tabl 5.0 Dadansoddi pellach o ddeilliannau Merthyr Tudful**

| Deilliant | Cadarnhaol | Diwallwyd | Dim newid | Heb ddangos deilliant cadarnhaol eto | Nifer â deilliannau ar draws y ddau gyflwyniad |
|---|---|---|---|---|---|
| **1 – Teimlo'n ddiogel** | 16 | 124 | 32 | 100 | 40 |
| **2 – Cyfrannu at ddiogelwch** | 10 | 58 | 31 | 69 | 30 |
| **3- Rheoli llety** | 19 | 110 | 47 | 288 | 55 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **4 – Rheoli perthynas** | 15 | 65 | 32 | 118 | 45 |
| **5 – Teimlo'n rhan o'r gymuned** | 10 | 65 | 32 | 82 | 35 |
| **6 – Rheoli arian** | 12 | 96 | 33 | 166 | 45 |
| **7 – Ymgysylltu â dysgu addysgiadol** | 4 | 30 | 11 | 67 | 22 |
| **8 –Ymgysylltu â chyflogaeth / gwaith gwrifoddol** | 2 | 36 | 12 | 48 | 20 |
| **9 – Yn gorfforol iach** | 20 | 46 | 41 | 105 | 42 |
| **10 – Yn iach o ran meddwl** | 21 | 59 | 53 | 113 | 46 |
| **11 – Dilyn ffordd o fyw iach ac actif** | 14 | 69 | 44 | 79 | 36 |
| **CYFANSWM** | 143 | 758 | 368 | 1235 | 416 |

**Tabl 6.0 Dadansoddi deilliannau RhCT**

| Categori Angen | Prif Angen | Angen eilaidd | Trydydd Angen | Nifer mewn tai sefyldog â Phrif Angen | Nifer sy'n cael cymorth fel y bo'r angen â Prif Angen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Larwm (yn cynnwys mewn llety gwarchod/gofal ychwanegol)** | 0 | | | | |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Teuluoedd ag anghenion cefnogi** | 5 | 11 | 2 | 0 | 5 |
| **Generig/Cefnogaeth gyfnewidiol/Peripatetig (gwasanaethau cefnogi tenantiaeth sy'n cynnwys amrywiaeth o anghenion defnyddiwr)** | 63 | 63 | 7 | 0 | 63 |
| **Dynion sy'n dioddef Cam-drin domestig** | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 |
| **Pobl dros 55 oed ag anghenion cefngoi (Rhaid i'r categori hwn fod heb Gwasanaethau Larwm)** | 97 | 32 | 7 | 1 | 96 |
| **Pobl â Salwch cronig (yn cynnwys HIV,Aids)** | 10 | 7 | 2 | 1 | 9 |
| **Pobl â Hanes o droseddu** | 25 | 23 | 11 | 5 | 20 |
| **Pobl â Anhwylderau datblygiadol (h.y. Awtistiaeth)** | 7 | 18 | 0 | 5 | 2 |
| **Pobl â Anableddau dysgu** | 158 | 30 | 15 | 150 | 8 |
| **Pobl â phroblemau iechyd meddwl** | 220 | 137 | 55 | 71 | 149 |
| **Pobl â Ag anableddau corfforol a/neu synhwyraidd** | 52 | 58 | 11 | 35 | 17 |
| **Pobl â statws ffoadur** | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| **Pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau (Alcohol)** | 24 | 38 | 20 | 8 | 16 |
| **Pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau (Cyffuriau)** | 16 | 63 | 22 | 2 | 9 |
| **Teuluoedd rhiant sengl ag anghenion cefnogi** | 17 | 22 | 9 | 1 | 16 |
| **Pobl sengl ag anghenion cefnogi heb eu rhestru uchod (25 to 54)** | 40 | 2 | 3 | 32 | 8 |
| **Menywod sy'n dioddef Cam-drin domestig** | 109 | 5 | 2 | 56 | 53 |
| **Pobl ifanc sydd yn gadael gofal** | 11 | 2 | 3 | 8 | 3 |
| **Pobl ifanc ag anghenion cefnogi (16 to 24)** | 81 | 23 | 7 | 38 | 43 |
| **CYFANSWM** | **936** | **536** | **177** | **413** | **518** |

**Tabl 7.0 Dadansoddi pellach o ddeilliannau RhCT**

| Deilliant | Cadarnhaol | Diwallwyd | Heb ddangos deilliant cadarnhaol eto |
|---|---|---|---|
| **1 – Teimlo'n ddiogel** | 83 | 135 | 15 |
| **2 – Cyfrannu at ddiogelwch** | 67 | 86 | 369 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **3- Rheoli llety** | 239 | 104 | 485 |
| **4 – Rheoli perthynas** | 39 | 53 | 404 |
| **5 – Teimlo’n rhan o’r gymuned** | 98 | 54 | 279 |
| **6 – Rheoli arian** | 66 | 89 | 583 |
| **7 – Ymgysylltu â dysgu addysgiadol** | 45 | 28 | 329 |
| **8 –Ymgysylltu â chyflogaeth / gwaith gwrifoddol** | 12 | 20 | 270 |
| **9 – Yn gorfforol iach** | 119 | 49 | 370 |
| **10 – Yn iach o ran meddwl** | 118 | 54 | 408 |
| **11 – Dilyn ffordd o fyw iach ac actif** | 43 | 33 | 388 |
| **CYFANSWM** | 929 | 705 | 3900 |

**Siart 1.0 Canran o bobl ledled Cwm Taf sydd wedi cymryd camau cadarnhaol tuag at gyflawni eu deilliant**



## Tystiolaeth ymgynghoriad

Mae PCRh Cwm Taf yn cydnabod pwysigrwydd ymgynghori â rhanddeilaid ac yn benodol defnyddwyr gwasanaeth, wrth ddatblygu cynlluniau comisiynu Lleol, cynlluniau rhanbarthol a'r gwasanaeth y maen nhw'n ymgysylltu ag ef.

Cafodd ymgynghori ei gyflawni i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth i sicrhau eu bod yn cymryd rhan weithredol wrth ddatblygu gwasanaethau'r dyfodol a chynlluniau comisiynu.

Caiff unrhyw ymgynghoriad darparwr ei gyflawni drwy fforymau Darparwr Rhanbarthol Cwm Taf a thrwy holiaduron.

Cafodd gweithdy ymgynghori ei hwyluso gan Grŵp Cyllid Strategol Cefnogi Pobl, i archwilio, drwy drafodaeth, y prif heriau ariannol a chyllidebol sy'n wynebu'r rhaglen Cefnogi Pobl a sicrhau dealltwriaeth a rennir o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu pawb sy'n ymwneud â chyflenwi'r Rhaglen ar lefel ranbarthol. Rhoddwyd cyfle i ddarparwyr gwasanaeth fwydo eu meddyliau i'r gweithdy hwn. Bydd PCRh Cwm Taf yn parhau i ymgynghori â rhanddeilaid a defnyddwyr gwasanaeth ledled y rhanbarth.

## Blaenoriaethau PCRh Cwm Taf

Cafodd Blaenoriaethau PCRh Cwm Taf ar gyfer 2017/18 eu dynodi yn sesiwn cynllunio PCRH a gynhaliwyd yn Hydref 2016 ac maen nhw'n cael eu hamlinellu isod:

- Dynodi ble gall gwasanaethau gael eu comisiynu yn rhanbarthol ledled Cwm Taf
- Adolygu cefnogaeth gyfredol o ddarpariaeth gyfnewidiol i ddynodi;
  - Ble gall darparwyr gael eu comisiynu'n rhanbarthol
  - Ble gall gwasanaethau gael eu tendro /comisiynu
- Parhau i ddefnyddio'r Cyfrifiannell Cost ym Merthyr Tudful ac yn RhCT i resymoli'r gwario
- Gwella monitrio deilliant ledled Cwm Taf i sicrhau fod gwasanaethau Cefnogi Pobl yn gallu tystiolaethu gwasanaethau o ansawdd yn effeithiol
- Ffurfio cysylltiadau agosach i drechu tlodi ac ymyrraeth gynnar ac agenda ataliol yn enwedig drwy archwilio cyfleoedd comisiynu ar y cyd a lleihau dyblygu drwy symleiddio gwasanaethau ble y bo'n bosibl
- Monitro goblygiadau diwygio Lles yn cynnwys newidiadau i fudd-dal tai ar y rhaglen cefnogi pobl
- Gweld cynnydd i'r cynllun gweithredu ar gyfer PCRh gyda cherrig milltir allweddol i ffocysu ffrydiau gwaith.

Mae'r data a gasglwyd yn awgrymu fod niferoedd yn cynyddu ac yn benodol mae niferoedd uchel yn ymddangos ledled y rhanbarth sy'n amlygu'r galw parhaus ar gyfer y grŵp cleientiaid canlynol:

- **Iechyd meddwl**
- **Digartrefedd / pobl sengl ag anghenion cefnogi.**
- **Cam-drin domestig**
- **Pobl ifanc**

Mae PCRh wedi cytuno y bydd y meysydd hyn yn cael blaenoriaeth fel y meysydd y bydd PCRh yn canolbwyntio arnynt ar gyfer 2017/18.

### Blaenoriethau Darparwyr Gwasanaeth

Ymgymerwyd ag ymgynghoriad â darparwyr rhanbarthol drwy fforwm y darparwr rhanbarthol ym mis Tachwedd 2016. Yn gyffredinol roedd cyfranogwyr yn teimlo nad oedd yna unrhyw wrthwynebiad at gyfeiriad cyffredinol, cynnwys na'r blaenoriaethau rhanbarthol a gynigwyd.

Cafodd rhai sylwadau eu pasio ynghylch y ffaith nad oedd y data anghenion yn adlewyrchiad cywir (tanamcangyfrif) o'r amrywiaeth a'r cymhlethdod o anghenion oedd yn ymddangos, ond derbyniwyd fod hyn wedi dilyn o sut y cafodd y ffurflenni eu cwblhau yn hytrach nag o gamgymeriad coladu.

Yn gyffredinol, cafwyd cytundeb fod casglu data yn eithaf digonol wrth gyfiawnhau'r ddarpariaeth gwasanaeth cyfredol, ond mynegwyd pryderon nad yw wedi ei gynllunio ar gyfer casglu data am anghenion newydd a rhai sy'n ymddangos o'r newydd ble nad oes gwasanaethau'n bodoli ar eu cyfer eto.

Cytunwyd ar y 2 flaenoriaeth ranbarthol newydd canlynol.

1) Blaenoriaethu cyfranogiad defnyddiwr gwasanaeth a chyd-gynhyrchu ar draws y Rhanbarth.
2) Dilysu dilysrwydd ac integriti'r data anghenion drwy gymharu â'r data a goladwyd ar gyfer Deddf Llesiant a Chendlaethau'r Dyfodol 2015 ac agenda trechu tlodi, yn enwedig am anghenion newydd a rhai sy'n ymddangos o'r newydd.

# Datblygiad Gwasanaeth PCRh Cwm Taf

Bydd rheoli ansicrwydd cyllid a achosir gan ddyraniad cyllideb blynyddol yn flaenoriaeth allweddol ynghyd â'r diffyg cynnydd wrth gyflenwi ailddosbarthu adnoddau (yn seiliedig ar angen) yn ôl yr argymhelliad yn adolygiad Mansell Aylward. Mae'r PCRh wedi cytuno fod ar bob grŵp cleient angen rhagor o graffu a dadansoddi yn ôl yr hyn a osodwyd yn y blaenoriaethau ar gyfer datblygu. Wrth i bob grŵp cleient gael ei graffu, os caiff arbedion pellach eu dynodi, yna bydd yr rhain yn cael eu hail-fuddsoddi mewn datblygiadau gwasanaeth newydd. Mae'r meysydd canlynol o weithio rhanbarthol wedi cael eu blaenoriaethu gyda golwg at archwilio cyfleoedd mewn comisiynu rhanbarthol yn ystod 2017/18.

**Adolygiad o Wasanaethau Cefnogaeth Gyfnewidiol Ledled y Rhanbarth**

Bydd y timau Cefnogi Pobl yn cydweithio ar adolygiad o'r holl gefnogaeth gyfnewidiol ledled y rhanbarth. Bydd hyn yn cynorthwyo wrth ddynodi dyblygiad gwasanaethau ac yn sicrhau dull gweithredu sy'n fwy holistaidd a chyson i gyflenwi gwasanaeth.

**Cyfrifiannell Cost**

Mae Polisi Prisio Casnewydd a'r cyfrifiannell cost cysylltiedig wedi cytuno arnynt i'w gweithredu ledled Merthyr Tudful.

Mae RhCT hefyd yn adolygu'r polisi prisio i sichrau y gellir ei weithredu'n briodol oddi fewn i ardal eu hawdurdod lleol. Bydd y ddau Dim Cefnogi Pobl yn adolygu'r ddarpariaeth cefnogaeth gyfnewidiol gan ddefnyddio'r cyfrifiannell cost fel gwaelodlin i'r gwario priodol.

**Contractau Rhanbarthol a Chostau Rheoli**

Cafodd is-grŵp rhanbarthol ei ffurfio o ganlyniad i'r Pwyllgor Cydweithredu Rhanbarthol sydd â'r dasg o archwio cyfleoedd comisiynu rhanbarthol. Gwnaeth y grŵp hwn weithredu'r gwaith rhanbarthol canlynol:

- Protocol rhanu data rhanbarthol
- Gweithgareddau rhanbarthol a ganiateir
- Comisiynu rhanbarthol ar gyfer darpariaeth hostel

Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo mewn perthynas â dull gweithredu rhanbarthol i gostau rheoli a chontractio. Bydd hyn yn ceisio rhesymoli costau rheoli ledled y rhanbarth.

Mae PCRh Cwm Taf wedi cytuno y bydd dyddiau cynllunio symud ymlaen yn cael eu cynnal gydag aelodau PDRh, Timau Cefnogi Pobl a darparwyr gwasanaeth i ddynodi ble y gellir cyflawni effeithiolrwydd wrth baratoi ar gyfer cwtogi i gyllid Rhaglen cefnogi pobl yn y dyfodol.

Gellir dod o hyd i ddatblygiadau gwasanaeth lleol ar gyfer Merthyr Tudful yn Atodiad A. Gellir dod o hyd i ddatblygiadau gwasanaeth Rhondda Cynon Taf yn Atodiad B. Mae'r ddau yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Cabinet.

## Effeithiolrwydd

Mae pob Grŵp Rhaglen Cefnogi Pobl lleol yn parhau i ymgymryd ag adolygiadau strategol perthnasol o'r holl wasanaethau yn y Rhaglen Cefnogi Pobl ledled y rhanbarth. Mae'r adolygiadau hyn wedi eu cyflawni gan yr un ymgynghorydd ac yn unol â Chanllawiau Grant Rhaglen Cefnogi Pobl a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym Mehefin 2013.

**Merthyr Tudful**

**Cyfrifiannell Cost / Polisi Prisio**

Er mwyn dynodi effeithiolrwydd mae'r Tîm CP wedi ceisio defnyddio'r cyfrifiannell cost sydd wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus gan awdurdodau cymdogol eraill. Mae awdurdodau cymdogol wedi gallu gwneud arbedion sylweddol ar wasanaethau a ariennir gan Grant Refeniw Cefnogi Pobl blaenorol (y Grant) heb unrhyw leihad yn narpariaeth y gwasanaeth. Mae'r tim CP yn anelu at asesu ac adoylgu gwybodaeth cyfrifiannell cost a cheisio ymgynghori â darparwyr â'r golwg o weithredu newidiadau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-18.

Mae GRhCP Merthyr Tudful hefyd wedi cytuno i fabwysiadu model Polisi Prisio Casnewydd a lledaenu hwn allan ochr yn ochr â'r cyfrifiannell cost i ddarparu mwy o dryloywder o ran ariannu gwasanaethau.

**Cynllun Prosiect Cefnogi Pobl**

Mae Cynllun Proseict Cefnogi Pobl yn cael ei ddatblygu i ganolbwyntio ar reoli'r rhaglen yn strategol ym Merthyr Tudful. Mae gan y cynllun hwn feysydd dynodedig ar gyfer archwilio pellach ac adolygu pellach yn cynnwys:

- Adolygiad o wasanaethau pobl ifanc yn cynnwys archwilio cyfleoedd contractio ar y cyd
- Adolygiad o wasanaethau anabledd dysgu
- Adolygiad o wasanaethau Pobl Hŷn
- Adolygiad o ddarpariaeth cefnogaeth gyfnewidiol
- Gweithredu polisi prisio a chyfrifiannell cost

Cafodd amserlen ei sefydlu ar gyfer gweithredu cynllun prosiect Cefnogi Pobl a rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn mynd rhagddo drwy gydol 2017/18.

**Adolygiad Aylward**

Erbyn Ebrill 2017, bydd gwasanaethau a ariennir gan GRhCP Merthyr Tudful wedi llwyr fodloni argymhellion adolygiad Aylward.

**O ganlyniad i'r gwaith hwn cafodd y cynlluniau canlynol eu dynodi ar gyfer ailfodelu:**

| Gwasanaeth | Rheswm dros Arbedion | Swm a Ollyngwyd |
|---|---|---|
| **Darpariaeth llety gwarchod Tai Cymoedd Merthyr** | I fodloni argymhellion Aylward cafodd y cymorth llety gwarchod ei ailfodelu yn wasanaeth cefnogaeth gyfnewidiol s | £55k |
| **Llety Cymorth Gellideg** | Mae un defnyddiwr gwasanaeth wedi symud i fyw yn annibynnol gyda chymorth tra bo'r llall wedi ei adleoli i wasanaeth arall a ariennir gan CP | £9k |
| CYFANSWM | | **£64k** |

Cafodd dadgomisiynu ei ddynodi oddi fewn i'r Cynllun Comisiynu Lleol er mwyn alinio'r cyllid ymhellach i ddiwallu anghenion lleol yn well, a chaiff hyn ei grynhoi isod:

| Gwasanaeth | Rhesymau dros gynilo | Swm a ollyngwyd |
|---|---|---|
| **Gwasanaethau Pobl Hŷn** | Bodloni argymhellion Aylward | £23k |
| **Llety Cymorth LD** | Defnyddiwr gwasanaeth wedi mynd i ofal preswyl | £7k |
| CYFANSWM | | **£30k** |

Ceir gostyngiad mewn ariannu ar gyfer staffio mewn cydsyniad â chanllaw Llywodraeth Cymru o 10% flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2019/20 pan mai dim ond staff porth fydd yn cael caniatâd i gael eu hariannu y tu allan i'r Grant Rhaglen Cefnogi Pobl. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ollwng cyllid craidd i gymryd lle'r ymrwymiad grant hwn. Caiff swm o leiaf £7,250.16 werth o gyllid grant a gafodd ei ddyrannu i staffio ei ollwng o'r gyllideb ar gyfer 2017/18.

Bydd y cyfan o'r uchod mewn lle erbyn 1 Ebrill 2017.

**Rhondda Cynon Taf**

Er mwyn cynorthwyo'r Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl i ddynodi effeithiolrwydd, ymgymerwyd ag adolygiad ar gyfer y rhan fwyaf o'r gwasanaethau oddi fewn i Raglen Cefnogi Pobl er mwyn ystyried:

- Faint o arian mae pob prosiect yn ei dderbyn ac a yw'n briodol.
- Sut mae'r darparwyr yn cyflenwi'r gwasanaeth a'r strwythurau, polisïau a gweithdrefnau sydd ganddynt mewn lle i sicrhau eu bod yn dilyn canllawiau priodol ac amodau Grant Cefnogi Pobl.
- A yw'r gwasanaethau yn dangos gwerth am arian.
- Ymymryd ag adolygiad o'r costau rheoli.

Yn dilyn cwblhau adolygiad gwasanaeth mae adolygiad strategol o'r maes gwaith hwnnw hefyd yn digwydd i ddeall perthnasoedd gwasanaethau uniogl a chostau'r gwasanaeth. Bydd hyn yn galluogi Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl i sicrhau fod ganddo'r gwasanaethau priodol mewn lle ar gyfer anghenion pob grŵp cleient penodol. Yn 2015/16 cwblhawyd adolygiadau gwasanaethau cam-drin domestig ac iechyd meddwl ac yn 2016/17 bydd pob maes arall yn cael ei gwblhau. Yn dilyn cwblhau'r adolygiadau strategol, fe ymgymerir â gwaith â chydweithwyr mewn Gofal Cymdeithasol i symud adolygiad grŵp cleient anableddau dysgu a chorfforol yn ei flaen.

**Yn sgil deilliant yr adolygiadau hyn, a thrwy weithredu'r canfyddiadau a'r argymhellion, cafodd y cynlluniau canlynol eu hail-fodelu a chafodd arbedion eu gwneud:**

| Cyllid gwreiddiol | Rhesymau dros arbedion | Swm |
|---|---|---|
| **Clustnodwyd cyllid ar gyfer comisiynu Cynllun gwasanaeth cefnogaeth gyfnewidiol gofal, Talbot Green** | Cais i Gartrefi RhCT ddewis y gwasanaeth newydd fel rhan o'u contract cyfredol i brosiect cefnogaeth gyfnewidiol pobl hŷn. | £65K |
| **Ailfodelu Rhondda yn cynnwys cefnogaeth gyfnewidiol generig i ddarparu gwasanaeth ymyrraeth ac ataliol.** | Adolygwyd gwerth y contract £291,817.80 | £62,249.70 |
| **Cyfanswm** | | **£127,249.70** |

**Polisi Prisio**

Er mwyn cynorthwyo gyda'r broses gomisiynu a'r disgwyliad o fynd ymlaen i ddarparu monitro ariannol mwy trylwyr ac effeithiol, a'r angen i ddeall Model Prisio Casnewydd yn well fel opsiwn prisio dichonadwy ar gyfer PCRh, mae grŵp cynllunio cefnogi pobl wedi sefydlu Grŵp Tasg a Gorchwyl i archwilio hyn ymhellach ac i:

1. Barhau i ddiwallu gwaith pellach i'w ymgymryd ag ef i'r CP8 ar gyfer y canllawiau prisio, ystyriaeth o daliadau rheoli, cymhwyso pensiwn a chyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol ac ystyriaeth o gysgu mewn trefniadau ar gyfer cynlluniau penodol.

2. Er mwyn ystyried yr opsiwn o gymhwyso Model Prisio Casnewydd i wasanaethau cefnogaeth gyfnewidiol yn RhCT fel prosiect peilot o 1 Ebrill 2017, i helpu i ddeall goblygiadau ariannol cyn cymhwyso yn fwy eang i'r holl brosiectau.

Mae'r Grŵp Cefnogi Pobl hefyd yn cynllunio ar gyfer effeithiolrwydd pellach drwy ail-fodelu, dad-gomisiynu ac ail-gomisiynu gwasanaethau ble y bo'n bosibl i'w defnyddio yn 2017/2018. Bydd y broses hon yn ffurfio rhan o'r Amserlen Cyfnodol yn ôl y manylion isod a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Cham-drin Domestig.

**Amserlen ar gyfer Ailfodelu Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Cham-drin Domestig**

| | |
|---|---|
| **Cam 1** | |
| **Adolygu'r argymhellion yn dilyn adolygiadau perthnasol strategol ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl a Cham-drin domestig.** | **Gweithio â darparwyr i weithredu'r argymhellion a dynodi effeithiolrwydd erbyn canol Tachwedd 2016.** |
| **Cam 2** | |
| **Dod â'r manylebau gwasanaeth a chostau uned i ben.** | Gweithio â darparwyr i gytuno ar ailffurfweddu/ailfodelu gwasanaethau yn seiliedig ar angen cyfredol ac |

| | |
|---|---|
| | adolygu costau uned erbyn diwedd Rhagfyr 2016. |
| **Cam 3** | |
| **Cyflwyno contract newydd a manylebau gwasanaeth ar gyfer 2017/2018** | Comisiynu gwasanaethau a ailffurfweddwyd erbyn 1 Ebrill 2017 |

Caiff ei ragweld y bydd y Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl yn gweithio drwy'r amserlen cyfnodol ar gyfer pob grŵp cleient arall oddi fewn i raglen Cefnogi Pobl drwy gydol 2017/2018.

**Ar amser ysgrifennu'r ddogfen hon, cafodd y pwyntiau effeithiolrwydd canlynol eu dynodi ar gyfer y grŵp cleientiaid canlynol yn 2016/2017:**

| Grŵp cleient | Arbedion 2016 |
|---|---|
| **Pobl hŷn a Digartrefedd (yn cynnwys Gofal ychwanegol a Rhondda)** | £127,249.70 |
| **Iechyd meddwl (Gwalia)** | £64,706.37 |
| **Troseddwr/Sylweddau (Gwalia)** | £63,560.68 |
| **Cam-drin domestig (Cymorth i Fenywod)** | £57,438.88 |
| **Anabledd Corfforol (Habinteg)** | £20,938.06 |
| **Cyfanswm** | **£333,893.69** |

Mae'r effeithiolrwydd uchod yn amodol ar gymeradwyaeth gan GRHCP a PCRh.

## Asesiad effaith ansawdd

Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng gwahanol grwpiau a gostwng eithrio cymdeithasol a thlodi drwy gynorthwyo cleientiaid grŵp sy'n agored i niwed i gael mynediad at a chynnal llety. Mae'r rhaglen hon yn cynorthwyo unigolion sy'n agored i niwed i gynnal eu hannibyniaeth ac yn helpu i leihau'r enghreifftiau o gael mynediad at leoliadau gofal sefydliadedig.

Wrth ddatblygu Cynlluniau Comisiynu Lleol mae yna ofyniad ar gyfer ymgymryd ag asesiad effaith ansawdd. Mae asesiadau effaith ansawdd wedi cael eu cwblhau ar gyfer pob Awdurod Lleol yng Nghwm Taf, gan ffurfio rhan o broses y Cynllun Comisiynu Lleol.

# Cynllun gwario rhanbarthol

Bydd y Cynllun gwario rhanbarthol yn cynnwys gwariant cyfunedig ar gyfer Cynllun gwario pob Awdrudod Lleol a chaiff ei gyflwyno fel dogfen ar wahân.

| | Safle Penodol (Seiliedig ar Lety) | | | | | | Fel y bo’r angen (Seiliedig yn y gymuned) | | | | | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Unedau cleient | Llai na 6 mis | Unedau cleient | 6 i 24 Mis | Unedau cleient | 24 Mis + | Unedau cleient | Llai na 6 mis | Unedau cleient | 6 i 24 Mis | Unedau cleient | 24 Misoedd + | |
| Categori Gwariant Cleient (y categori y mae’r gwasanaeth wedi ei ffocysu arno’n bennaf) | Niferoedd | £ | Niferoedd | £ | Niferoedd | £ | Niferoedd | £ | Niferoedd | £ | Niferoedd | £ | £ |
| Menywod sy’n dioddef Cam-drin domestig | 29 | 459,042 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15 | 88,235 | 65 | 317,083 | 0 | 0 | 864,360 |
| Dynion sy’n dioddef Cam-drin domestig | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pobl ag Anableddau dysgu | 0 | 0 | 0 | 0 | 298 | 4,034,359 | 0 | 0 | 0 | 0 | 27 | 100,758 | 4,135,117 |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pobl â phroblemau iechyd meddwl | 0 | 0 | 42 | 497,333 | 45 | 237,961 | 22 | 133,106 | 103 | 417,193 | 112 | 90,306 | 1,375,899 |
| Pobl â phroblemau Alcohol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau | 0 | 0 | 7 | 154,850 | 0 | 0 | 3 | 32,974 | 31 | 104,000 | 0 | 0 | 291,824 |
| Pobl â Hanes o droseddu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 16 | 112,782 | 10 | 57,087 | 0 | 0 | 169,869 |
| Pobl â statws ffoadur | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pobl ag anableddau corfforol a/neu synhwyraidd | 0 | 0 | 0 | 0 | 12 | 164,806 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 164,806 |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pobl ag Anhwylderau datblygiadol (h.y. Awtistiaeth) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pobl â Salwch cronig (yn cynnwys HIV,Aids) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pobl ifanc sydd yn gadael gofal | 0 | 0 | 3 | 14,524 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 14,524 |
| Pobl ifanc ag anghenion cefnogi (16 i 24) | 31 | 585,002 | 32 | 399,425 | 0 | 0 | 12 | 81,784 | 0 | 0 | 53 | 320,736 | 1,386,946 |
| Teuluoedd rhiant sengl ag anghenion cefnogi | 0 | 0 | 9 | 96,302 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 96,302 |
| Teuluoedd ag anghenion cefnogi | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15 | 160,501 | 0 | 0 | 160,501 |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pobl sengl ag anghenion cefnogi heb eu rhestru uchod (25 i 54) | 20 | 390,069 | 13 | 180,000 | 0 | 0 | 153 | 291,385 | 0 | 0 | 20 | 42,777 | 904,231 |
| Pobl dros 55 oed ag anghenion cefngoi (Rhaid i'r categori hwn eithrio gwasanaethau larwm) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 24 | 33,144 | 536 | 712,964 | 60 | 72,954 | 819,062 |
| Generig/Cefnogaeth gyfnewidiol/Peripatetig (gwasanaethau cefnogi tenantiaeth sy'n cynnwys amrywiaeth o anghenion defnyddiwr) | | | | | | | 160 | 593764.2 | 11 | 62795 | 0 | 0 | 656,559 |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Larwm (yn cynnwys mewn llety gwarchod/gofal ychwanegol) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwariant nad yw'n uniongyrchol yn cysylltu â'r categorïau cynllun gwario uchod | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 139403 | 139,403 |
| | 80 | 1,434,112 | 106 | 1,342,434 | 355 | 4,437,127 | 405 | 1,367,174 | 771 | 1,831,623 | 277 | 766,934 | 11,179,403 |
| **CYFANSWMS** | | | | | | | | | | | | | |

# Atodiad A – Datblygiadau Gwasanaeth Merthyr Tudful

## A) RHESTR GRYNO O FLAENORIAETHAU – DATBLYGIADAU GWASANAETH

Ymhlith y blaenoriaethau cyfredol ar gyfer datblygiad i fynd i’r afael ag angen na ddiwallwyd yn seiliedig ar anghenion data mae:

**PROSIECTAU A ARIENNIR GAN GRhCP 2017-18**

| Prosiect | Darparwr | Landlord | Model | Grŵp cleient | Capasiti | Refeniw angenrheidiol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cais am Lety a Rennir | I’W GADARNHAU | Gwasgaredig | CYMORTH FEL Y BO’R ANGEN | Pobl sengl ag anghenion cefnogi / Pobl ifanc | 8 | £40,000 |
| Prosiect gwasgaredig | Gofal | Gwasgaredig | CYMORTH FEL Y BO’R ANGEN | Iechyd meddwl | 6 | £27,745 |
| Lleoliad oedolion | Bywydau a rennir | Gwasgaredig | SA | Anabledd dysgu | 5 | £16,000 |
| Prosiect Adolygu Budd-dal (Cyllid am ran o’r flwyddyn) | CAB | Gwasgaredig | CYMORTH FEL Y BO’R ANGEN | Pobl sengl ag anghenion cefnogi | 16 | £63,122.60 (Per annum)<br><br>£44,318.20 (Cyllid am ran o’r flwyddyn) |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | | | | | | **£128,063.20** |

Mae cyfanswm gwariant yn fwy na'r arian sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae yna ddisgwyliad y bydd adolygiad pellach drwy gyfrifiannell cost a rheoli gwagleoedd yn dynodi arian i ddiwallu unrhyw ddiffyg ariannol ond i sicrhau lleihau risg mae'r gwasanaeth CAB wedi ei gomisiynu am 9 mis yn hytrach na'r 12 mis llawn sy'n cydfynd â'r arian sydd ar gael.

## B) CRYNODEB O RESTR O FLAENORAETHAU – DADGOMISIYNU GWASANAETH

Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, mae'r prosiectau canlynol wedi eu dynodi ar gyfer dadgomisiynu yn 2017-18

**PROSIECTAU A ARIENNIR GAN GRhCP 2017-18**

| Prosiect | Darparwr | Landlord | Model | Grŵp cleient | Capasiti | Refeniw a ollyngwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| WWHA – darpariaeth Llety gwarchod | WWHA | WWHA | Llety gwarchod | E14 | 77 | **£16,263.01** |
| Llety Cymorth LD | Drive | UWHA | SA | E2 | 1 | **£7,883.96** |
| Craig yr Hendre | Hafod HA | Hafod | Llety gwarchod | E14 | 21 | **£6,855.81** |
| **Cyfanswm** | | | | | | **£31,002.78** |

Er mwyn bodloni argymhelliad adolygiad Aylward, bydd holl wasanaethau pobl hŷn nad oedd yn gallu tystiolaethu bod eu daliadaeth yn niwtral yn cael eu dadgomisiynu.

Ceir gostyngiad mewn ariannu un defnyddiwr gwasanaeth mewn lleoliad llety cymorth anabledd dysgu, gan ei fod wedi symud i ofal preswyl.

Mae yna ofyniad am ostyngiad mewn arian ar gyfer staffio i gydsynio â chanllaw Llywodraeth Cymru o 10% flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2019/20 pan mai dim ond staff porth fydd yn cael caniatâd i gael eu hariannau allan o Grant Rhaglen Cefnogi Pobl. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wireddu cyllid craidd i gymryd lle'r ymrwymiad grant hwn. Er mwyn cefnogi'r agenda hwn, mae cyfanaswm o £32,501.67 wedi cael ei ollwng o wariant grant ar staffio ar gyfer 2017/18.

## C) CRYNODEB O RESTR O FLAENORIAETHAU – AILFODELU PROSIECTAU CYFREDOL

Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, mae'r prosiectau canlynol wedi eu dynodi ar gyfer ailfodelu yn 2017-18 er mwyn diwallu'r blaenoriaethau a ddynodwyd drwy fapio anghenion.

**Prosiectau a Ariannwyd gan Grŵp Rhaglen Cefnogi Pobl 2017-18**

| Prosiect | Darparwr | Landlord | Model | Grŵp cleient | Capasiti | Refeniw a Ollyngwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| MVH – darpariaeth Llety gwarchod | MVH | MVH | Llety gwarchod | E14 | Amh | £54,944.09 |
| Prosiect Gellideg | Drive | MVH | SA | E2 | 1 | £9,614.67 |
| **Cyfanswm** | | | | | | **£64,558.76** |

Caiff holl ddarpariaeth llety gwarchod Cartrefi Cymoedd Merthyr ei ailffufweddu'n wasanaeth cefnogaeth gyfnewidiol generig a fydd yn cael ei amalgameiddio â'r gefnogaeth gyfnewidiol gyfredol i ddarparu gwasanaeth daliadaeth holistaidd niwtral ledled Merthyr Tudful. Caiff y gwasanaeth ei fonitro'n agos i sicrhau na fydd defnyddwyr gwasanaeth yn denantiaid CMT yn unig. Bydd yr ailffurfweddu hwn yn gollwng cyllid gwerth £55,735.31 i'w ailfuddsoddi.

Ceir lleihad mewn arian un defnyddiwr gwasanaeth sydd mewn lleoliad llety cymorth anabledd dysgu, gan fod un wedi symud at brosiect gwahanol sydd eisoes wedi ei ariannu gan gefnogi pobl a'r un arall wedi symud i fyw yn fwy annibynnol.

## Atodiad B – Datblygiad Gwasanaeth RhCT

**Trefniadau gwasanaeth newydd neu ychwanegol ers 1 Awst 2016 – 31 Mawrth 2017 i fynd i'r afael â Blaenoriaethau Lleol a Rhanbarthol:**

| Prosiect | Darparwr | Model | Grwp cleient | Capasiti |
|---|---|---|---|---|
| Hostel Stryd y Felin | Adref | Llety Cymorth | Pobl sengl ddigartref | 2 uned ychwanegol |
| Cefnogaeth gyfnewidiol | Gwalia | Cefnogaeth gyfnewidiol | Iechyd meddwl | 30 uned ychwanegol |
| Cefnogaeth gyfnewidiol | Gofal | Cefnogaeth gyfnewidiol | Iechyd meddwl | 30 uned ychwanegol |
| Ymyrraeth gynnar ac atal digartrefedd (Prosiect Peilot Newydd) | Grŵp Tai Cymunedol Cynon Taf | Cefnogaeth gyfnewidiol | Amrywiol/Atal Digartrefedd | 50 uned |
| | | Mae Prosiect SAFE yn darparu cefnogaeth emosiynol drwy raglenni cymorth galw heibio, rhaglenni grŵp, a chyswllt wyneb yn wyneb a thros y ffôn i ddynion a menywod sy'n ymddangos ag | Cam-drin domestig | Sesiynau grŵp |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | anghenion isel i ganolig. | | |
| Menywod / dynion sy'n dioddef Cam-drin domestig (Prosiect Peilot Newydd) | Cymorth i Fenywod | | | |

**Prosiectau Cynnig ar gyfer datblygiad yn 2017/2018 i fynd i'r afael â blaenoriaethau Lleol a Rhanbarthol:**

| **Prosiect** | **Darparwr** | **Model** | **Grŵp cleient** | **Capasiti** |
|---|---|---|---|---|
| Prosiect ar y cyd mewn partneriaieth â Theuluoedd yn Gyntaf i gynnig gwasanaeth ymyrraeth gynnar i greisis i atal pethau rhag gwaethygu i wasanaethau statudol a digartrefedd. | Grŵp Tai Cymunedol Cynon Taf | Cefnogaeth gyfnewidiol. | Amrywiol/ Atal Digartrefedd | 150 uned |
| Darparu Cefnogaeth gyfnewidiol therapiwtig | Cymorth i Fenywod | Gweithiwr Arbenigol Iechyd meddwl (Cam-drin domestig) | Cam-drin domestig/Iechyd meddwl | I'W GADARNHAU |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| i fenywod sydd ag amrywiaeth o anghenion iechyd meddwl o ganlyniad i ddioddef cam-drin domestig a/neu drais rhyw. | | | | |
| Prosiect i gynorthwyo/cydlynu Get Ready And Move ar gyrsiau sy'n seiliedig ar hyfforddi. | Trivallis | Get Ready & Move On (GRAMO) Sesiynau tenantiaeth grŵp | Atal Digartrefedd | I'W GADARNHAU |
| Llety argyfwng â chymorth<br><br>Hen Bopty | I'W GADARNHAU | Llety argyfwng â chymorth i bobl ifanc fel modd o osgoi llety gwely a brecwast gan gynnwys rhai sy'n gadael gofal a phobl ifanc eraill sy'n agored i niwed. | Pobl ifanc | 5 uned (O Hydref 2017) |

**CRYNODEB O'R RHESTR O FLAENORIAETHAU – AILFODELU PROSEICTAU CYFREDOL**

Ar adeg ysgrifennu mae'r prosiectau canlynol wedi eu dynodi ar gyfer ailfodelu yn 2017-18 er mwyn diwallu'r blaenoriaethau a ddynodwyd drwy fapio anghenion rhanbarthol a safbwyntiau strategol perthnasol.

| **Prosiect** | **Darparwr** | **Model** | **Grwp cleient** | **Capasiti** |
|---|---|---|---|---|
| Cefnogaeth gyfnewidiol lefel isel | Gofal Hafod | Cefnogaeth gyfnewidiol | Iechyd meddwl | Cynnydd o 73 uned |
| Castle House | Gwalia | Tai â chymorth | Troseddwyr/Sylweddau | Gostyngiad o 3 uned<br><br>(cynwysedig yn y Gefnogaeth gyfnewidion generig) |
| Castle House | Gwalia | Cefnogaeth gyfnewidiol | Troseddwyr/Sylweddau | Cynnydd o 6 uned |

**Ar adeg ysgrifennu mae'r prosiectau canlynol wedi eu dynodi ar gyfer dadgomisiynu yn 2017-18.**

| **Prosiect** | **Darparwr** | **Model** | **Grwp cleient** | **Capasiti** | **Refeniw a Ollyngwyd** |
|---|---|---|---|---|---|
| Anabledd Corfforol Prosiect | Habinteg | Cefnogaeth gyfnewidiol | Anabledd Corfforol | 29 | £20,938.06 |
| Lloches(Frondeg) | Cymorth i Fenywod | | | 3 | £52,814.39 |
| **Cyfanswm** | | | | | **£73,752.45** |